**RHIF Y CWMNI [                              ]:**

**ERTHYGLAU CYMDEITHASIAD**

**YESCYMRU CYF**

(a gorfforwyd ar [            ] 20[    ])

**RHAN 1**

**DEHONGLI**

1. **Termau diffiniedig**

1.1 Yn yr erthyglau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall:

mae i **aelod** — yr ystyr a roddir i “member” yn adran 112 o Ddeddf Cwmnïau 2006;

ystyr **Aelod Etholedig** — yw person a etholir gan yr aelodau i’r CLIC ac i rôl cyfarwyddwr yn unol ag erthygl **19**;

mae i **Amcanion** — yr ystyr a roddir yn erthygl **3.1**;

ystyr **CCB** — yw cyfarfod cyffredinol blynyddol o’r Cwmni;

mae i **Cadeirydd** — yr ystyr a roddir yn erthygl **14**;

mae i **cadeirydd y cyfarfod cyffredinol** — yr ystyr a roddir yn erthygl **30**;

mae i **Corff Llywodraethu Cenedlaethol neu CLIC** — yr ystyr a roddir yn erthygl **6**;

mae **cyfarfod** — yn cynnwys, ac eithrio pan fo’n anghyson ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, y canlynol:

- cyfarfod ffisegol;
- cynhadledd fideo, cyfleuster fideo ar y rhyngrwyd neu ddull electronig tebyg sy’n caniatáu cyfranogiad gweledol a chyfranogiad sain ar y pryd;
- cynadledda ffôn; a/neu
- unrhyw gyfuniad o’r uchod.

ystyr **Cyfarwyddwr** — yw Aelod Etholedig o’r Corff Llywodraethu Cenedlaethol a chyfarwyddwr i’r Cwmni, ac mae’n cynnwys unrhyw berson sy’n dal swydd

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cyfarwyddwr, beth bynnag fo’r enw a elwir ar y swydd honno; |
| ystyr **Cyflawn Aelodaeth** | o ran aelod o’r Cwmni, yw bod mewn cyflawn aelodaeth fel y’i pennir gan y Cwmni ac fel y’i nodir mewn Is-ddeddfau o dro i dro; |
| mae i **Cyngor Rhanbarth** | yr ystyr a roddir yn erthygl **39**; |
| mae i **Cyngor y Dirprwyon** | yr ystyr a roddir yn erthygl **41**; |
| ystyr **Cynrychiolydd Awdurdodedig** | yw unigolyn sydd wedi'i awdurdodi gan sefydliad aelodaeth i weithredu ar ei ran yng nghyfarfodydd y Cwmni ac y rhoddir ei enw i'r CLIC; |
| ystyr y **Deddfau Cwmnïau** | yw’r Deddfau Cwmnïau (fel y’u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006), i’r graddau y maent yn gymwys i’r Cwmni; |
| mae **Dogfen** | yn cynnwys, oni phennir yn wahanol, unrhyw ddogfen a anfonir neu a gyflenwir ar ffurf electronig; |
| mae i **ffurflen electronig** | yr ystyr a roddir i “electronic form” yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| mae **Grŵp** | yn cynnwys unrhyw grŵp fel y’i cydnabyddir gan y Cwmni, gan gynnwys Grŵp Achrededig, Grŵp Cyswllt, Grŵp Daearyddol, Grŵp Gwarchodedig a/neu Grŵp Thematig; |
| mae **Grŵp Achrededig** | yn cynnwys unrhyw Grŵp sydd wedi’i achredu ac wedi’i gydnabod yn swyddogol gan y Cwmni yn unol ag unrhyw bolisi ar Grwpiau a all fod mewn grym o dro i dro; |
| ystyr **Grŵp Cyswllt** | yw unrhyw grŵp a gydnabyddir gan y Cwmni ond sydd heb statws Grŵp Achrededig; |
| mae **Grŵp Daearyddol** | yn cynnwys unrhyw un neu ragor o’r grwpiau daearyddol, sydd hefyd yn Grŵp Achrededig, fel y’u cydnabyddir gan y Cwmni; |
| mae **Grŵp Gwarchodedig** | yn cynnwys unrhyw un neu ragor o grwpiau gwarchodedig y Cwmni fel y’u cydnabyddir gan y Cwmni; |
| mae i **hysbysiad dirprwy** | yr ystyr a roddir yn erthygl **35**; |
| ystyr **Is-ddeddfau** | yw unrhyw is-ddeddfau sydd gan y Cwmni ar waith ac a ddiwygir o dro i dro yn unol ag erthygl **25**; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| mae i **is-gwmni** | yr ystyr a roddir i “subsidiary” yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| mae **Methdaliad** | yn cynnwys achos ansolfedd unigol mewn awdurdodaeth heblaw Cymru a Lloegr neu Ogledd Iwerddon sy’n debyg o ran ei effaith i achos methdaliad; |
| mae i **penderfyniad arbennig** | yr ystyr a roddir i “special resolution” yn adran 283 o Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| mae i **penderfyniad cyffredin** | yr ystyr a roddir i “ordinary resolution” yn adran 282 o Ddeddf Cwmnïau 2006; |
| ystyr **Pwyllgor** | yw unrhyw un o bwyllgorau’r CLIC gan gynnwys ymysg eraill y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg; |
| ystyr **Rhanbarth Senedd** | yw un o bum rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, Canol De Cymru, Dwyrain De Cymru, a Gorllewin De Cymru neu unrhyw ranbarthau eraill a gyflwynir gan y Senedd o dro i dro; ac |
| ystyr **ysgrifen** | yw cynrychioli neu atgynhyrchu geiriau, symbolau neu wybodaeth arall ar ffurf weladwy drwy unrhyw ddull neu gyfuniad o ddulliau sy’n galluogi’r derbynnydd i ddarllen a chadw’r geiriau, y symbolau neu’r wybodaeth arall, p’un a gânt eu hanfon neu eu cyflenwi ar ffurf electronig ynteu fel arall. |

1.2 Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn fel arall, mae i eiriau neu ymadroddion eraill a ddefnyddir yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag sydd i’r geiriau neu’r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Neddf Cwmnïau 2006 ag sydd mewn grym ar y dyddiad y daw’r erthyglau hyn yn gyfrwymol i’r Cwmni.

## 2. Erthyglau enghreifftiol

2.1 Ni fydd Erthyglau Enghreifftiol Cwmnïau Preifat Cyfyngedig drwy Warant a nodir yn atodlen 2 o Reoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008 yn gymwys i’r Cwmni.

# RHAN 2

# AMCANION

## 3. Amcanion y Cwmni

3.1 Mae amcanion y Cwmni (yr "**Amcanion**") fel a ganlyn:

(a) Sicrhau annibyniaeth i Gymru drwy ymgyrchu amhleidiol.

DRAFT

(b) Sicrhau Cymru sy'n ddiogel i bawb ac sy'n croesawu pawb. Yn ychwanegol, mae YesCymru Cyf yn ymddiried ym mhobl Cymru i wneud penderfyniadau democrataidd am y modd y caiff Cymru annibynnol ei llywodraethu ac nid yw'n rhagfarnu sut benderfyniadau a ddylai gael eu gwneud.

3.2 Yn ddarostyngedig i frawddeg gyntaf erthygl **3.3**, ni chaniateir i'r amcanion a'r pwerau a bennir ym mharagraffau gwahanol erthygl **3.1** neu erthygl **3.3** (yn ôl y digwydd) oni bai bod y cyd-destun yn gofyn hynny yn benodol, gael eu cyfyngu mewn unrhyw fodd drwy gyfeirio at delerau unrhyw baragraff arall o'r erthygl honno neu enw'r Cwmni neu natur unrhyw fusnes a gynhelir gan y Cwmni na thrwy gasgliad ar sail y rheiny, ond fe ganiateir iddynt gael eu cyflawni mewn modd mor llawn â phe bai pob un o'r paragraffau a enwyd yn pennu unig Amcan y Cwmni a rhaid eu dehongli mewn ystyr mor eang â phe bai pob un o'r paragraffau a enwyd yn pennu unig Amcan y Cwmni.

3.3 Mae gan y Cwmni bŵer i wneud unrhyw beth o fewn y gyfraith a allai hybu neu helpu i hybu'r Amcanion neu unrhyw un neu ragor ohonynt. Yn benodol (ond heb gyfyngiad) mae gan y Cwmni y pwerau a ganlyn:

(a) i ymgymryd â holl swyddogaethau'r gymdeithas anghorfforedig bresennol a elwir YesCymru, i sicrhau ei hasedau ac i ysgwyddo'i rhwymedigaethau;

(b) i dalu o gronfeydd y Cwmni y costau a ysgwyddir wrth ffurfio'r Cwmni;

(c) i gaffael neu logi eiddo o unrhyw fath, ac unrhyw fuddiant mewn eiddo o unrhyw fath neu hawl drosto;

(d) i gaffael y cyfan neu unrhyw ran o fusnes neu asedau unrhyw berson, ffyrm, neu gwmni sy'n cynnal unrhyw weithgaredd sy'n cefnogi neu'n gallu cefnogi'r Amcanion ac i roi unrhyw fath o ystyriaeth yn gyfnewid am y busnes neu'r asedau;

(e) i fenthyca arian neu godi arian neu sicrhau y telir arian yn y fath fodd ag y gwêl y cyfarwyddwyr yn dda, i arwystlo'r ymgymeriad a'r cyfan neu unrhyw ran o eiddo ac asedau tiriog a phersonol y Cwmni, yn y presennol a'r dyfodol, ac i ddod yn aelod o unrhyw gymdeithas adeiladu;

(f) i ddyroddi debenturau neu stoc debenturau, boed yn barhaol neu'n ad-brynadwy neu'n ad-daladwy, yn gyfartal neu ar bremiwm neu ddisgownt, ac am unrhyw ystyriaeth a chydag unrhyw hawliau ac amodau ag y gwêl y cyfarwyddwyr yn dda ac yn ddarostyngedig i'r hawliau a'r amodau hynny;

(g) i fuddsoddi arian y Cwmni a delio ag arian y Cwmni mewn unrhyw fodd a dal neu ddelio fel arall ag unrhyw fuddsoddiadau a wneir;

(h) i werthu, gwaredu, gosod, morgeisio, neu arwystlo'r cyfan neu unrhyw ran o eiddo'r Cwmni ac i roi trwyddedau, opsiynau, hawliau a breintiau mewn perthynas â'r cyfan neu unrhyw ran o eiddo a hawliau'r Cwmni,

DRAFT

neu i ymdrin ag ef fel arall, ac i dderbyn unrhyw beth o werth yn gyfnewid;

(i) i roi grantiau neu fenthyciadau arian ac i roi gwarantau ac indemniadau ar unrhyw delerau; ac i gefnogi unrhyw amcan elusennol neu gyhoeddus a thanysgrifio iddo;

(j) i hybu unrhyw gwmni arall er mwyn caffael y cyfan neu unrhyw ran o'r busnes neu'r eiddo neu'r ymgymeriad neu unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau'r cwmni neu unrhyw un ohonynt, neu i ymgymryd ag unrhyw fusnes neu weithrediadau sydd (ym marn y cyfarwyddwyr) yn debygol o helpu'r Cwmni neu fod o fudd iddo; ac i danysgrifio ar gyfer y cyfan neu unrhyw ran o gyfrannau neu warannoedd unrhyw gwmni o'r fath neu eu caffael fel arall;

(k) i weithredu fel asiant neu frocer neu ymddiriedolwr ar ran unrhyw berson, ffyrm neu gwmni, ac i ymgymryd ag unrhyw fath o gontract a'i gyflawni;

(l) i wobrwyo unrhyw berson, ffyrm neu gwmni sy'n darparu gwasanaethau i'r Cwmni drwy daliad arian parod neu unrhyw ddull arall;

(m) i sefydlu, cefnogi a chynnal cronfeydd neu gynlluniau blwydd-daliadau neu gronfeydd neu gynlluniau eraill (boed â chyfraniadau neu'n ddi-gyfraniad) er budd unrhyw un neu ragor o gyflogeion y Cwmni neu unrhyw is-gwmni, cwmni dal neu gyd-is-gwmni i'r Cwmni a'u priod, eu partneriaid sifil, eu plant a'u perthnasau a'u dibynyddion eraill; ac i roi benthyg arian i unrhyw gyflogeion o'r fath neu i ymddiriedolwyr ar eu rhan i alluogi unrhyw gynlluniau o'r fath i gael eu sefydlu neu eu cynnal;

(n) i dalu o gronfeydd y Cwmni bremiymau ar bolisïau yswiriant a sicrheir yn unol ag erthygl **46**;

(o) i gyfuno ag unrhyw gwmni neu ymgymeriad arall y byddai (ym marn yr CLIC) yn fanteisiol cyfuno'u hamcanion â'r Amcanion, neu i gefnogi unrhyw gwmni neu ymgymeriad arall o'r fath; a

(p) i wneud y cyfan neu unrhyw un neu ragor o'r pethau neu'r materion a ganiateir gan yr erthyglau hyn mewn unrhyw ran o'r byd, a hynny fel penadur, contractwr neu fel arall, a chan neu drwy asiantau, broceriaid, is-gontractwyr neu fel arall a naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill.

## RHAN 3

### DEFNYDDIO INCWM A CHYFYNGU ATEBOLRWYDD

4. **Defnyddio incwm ac eiddo**

4.1 Rhaid i incwm ac eiddo'r Cwmni gael eu defnyddio tuag at hybu'r Amcanion yn unig ac ni chaniateir eu talu na'u trosglwyddo, yn uniongyrchol neu'n

DRAFT

anuniongyrchol, ar ffurf difidend, bonws neu fel arall ar ffurf elw, i aelodau'r Cwmni.

4.2 Ni fydd yr erthygl **4** hon yn atal y Cwmni rhag talu unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn ddidwyll:

(a) cydnabyddiaeth resymol a phriodol i unrhyw aelod, swyddog, cyflogai neu asiant i'r Cwmni am unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r Cwmni;

(b) llogau ar arian a fenthycir gan unrhyw aelod neu gyfarwyddwr i'r Cwmni ar gyfradd flynyddol resymol a phriodol heb fod yn fwy na dau y cant yn llai na'r gyfradd fenthyca sylfaenol a gyhoeddir o dro i dro gan fanc clirio sydd i'w ddewis gan y cyfarwyddwyr;

(c) rhent rhesymol a phriodol am fangre sy'n cael ei phrydlesu neu ei gosod i'r Cwmni gan unrhyw aelod neu gyfarwyddwr i'r Cwmni;

(d) ffioedd, cydnabyddiaeth neu fudd arall mewn arian neu werth arian i unrhyw gwmni y gall cyfarwyddwr iddo hefyd fod yn aelod hefyd sy'n dal dim mwy nag 1% o gyfalaf y cwmni hwnnw;

(e) treuliau parod rhesymol i unrhyw gyfarwyddwr a ysgwyddir mewn cysylltiad â chyflawni dyletswyddau'r cyfarwyddwr hwnnw;

(f) unrhyw swm ar ffurf indemniad yn unol ag erthygl **45**; a

(g) unrhyw bremiwm ar gyfer yswiriant o fath y cyfeirir ato yn erthygl **46**.

4.3 Os caiff y Cwmni ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, os bydd unrhyw warged o gwbl ar ôl bodloni ei holl ddyledion a rhwymedigaethau, gwneir trefniadau i sicrhau bod unrhyw warged y pryd hwnnw yn cael ei ddychwelyd i **gyfranwyr** i'r Cwmni. Ni rennir y gwarged gydag unrhyw un heblaw'r cyfranwyr. Rhaid i'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod rhaniad y gwarged gyda'r cyfranwyr adeg cau'r Cwmni, yn cyd-fynd â'r cyfraniadau y mae person yn eu gwneud tuag at y gwarged. Bydd penderfyniad y Corff Llywodraethu Cenedlaethol yn hyn o beth yn derfynol.

4.4 At ddibenion erthygl 4.3 uchod, ystyr "**cyfranwyr**" yw unrhyw aelod sydd, ar ddyddiad dirwyn y Cwmni i ben neu ei ddiddymu, yn gyfrannwr cyfredol neu a beidiodd â bod yn gyfrannwr o fewn y pum mlynedd diwethaf.

## 5. Atebolrwydd yr aelodau

5.1 Cyfyngir atebolrwydd pob aelod i £1, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r Cwmni os caiff ei ddirwyn i ben tra bo'n aelod neu o fewn blwyddyn ar ôl iddo beidio â bod yn aelod, er mwyn:

(a) talu dyledion a rhwymedigaethau'r Cwmni a gontractiwyd cyn iddo beidio â bod yn aelod; a

(b) talu costau, taliadau a threuliau dirwyn i ben.

DRAFT

DRAFT

## RHAN 4

## CYFARWYDDWYR / Y CORFF LLYWODRAETHU CENEDLAETHOL ("CLLC")

## PWERAU A CHYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

6. **Awdurdod cyffredinol y cyfarwyddwyr**

6.1 Aelodau'r CLIC, sy'n Aelodau Etholedig, fydd y cyfarwyddwyr.

6.2 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthyglau hyn, yr CLIC sy'n gyfrifol am reoli busnes y Cwmni, ac at y diben hwn caiff y cyfarwyddwyr arfer holl bwerau'r Cwmni.

6.3 Ar ôl ei ethol neu ei ailethol rhaid i bob Aelod Etholedig lofnodi datganiad o barodrwydd i weithredu fel cyfarwyddwr cyn y caiff bleidleisio mewn unrhyw gyfarfod o'r CLIC.

7. **Pŵer wrth gefn yr aelodau**

7.1 Caiff yr aelodau, drwy benderfyniad arbennig, gyfarwyddo'r CLIC i gymryd camau penodedig, neu i ymatal rhag eu cymryd.

7.2 Nid yw unrhyw benderfyniad arbennig o'r fath yn annilysu unrhyw beth y mae'r CLIC wedi'i wneud cyn i'r penderfyniad gael ei basio.

8. **Caiff yr CLIC ddirprwyo**

8.1 Caiff yr CLIC ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'r pwerau a roddir iddo o dan yr erthyglau hyn:

(a) i unrhyw berson neu Bwyllgor;

(b) drwy unrhyw ddull (gan gynnwys drwy bŵer atwrnai);

(c) i unrhyw raddau;

(d) mewn perthynas ag unrhyw faterion neu diriogaethau; ac

(e) ar unrhyw delerau ac amodau;

ag y gwêl yn dda.

8.2 Os yw'r CLIC yn pennu hynny, caiff unrhyw ddirprwyad o'r fath awdurdodi rhagor o ddirprwyo ar bwerau'r CLIC gan unrhyw berson y maent wedi'u dirprwyo iddo.

8.3 Caiff yr CLIC ddirymu unrhyw ddirprwyad yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu newid ei delerau a'i amodau.

9. **Pwyllgorau**

9.1 Rhaid i'r CLIC sefydlu pwyllgor archwilio a sicrwydd risg, y gellir nodi ei rôl a'i gyfrifoldebau mewn cylch gorchwyl yn unol ag erthygl **9.4**, a rhaid i'r rôl honno

gynnwys cefnogi'r Cwmni drwy adolygu ei drefniadau archwilio a'i brosesau rheoli risg.

9.2 Caiff yr CLIC sefydlu unrhyw Bwyllgorau a wêl yn dda ac er lles gorau'r Cwmni i hybu'r Amcanion.

9.3 Rhaid i bwyllgorau y mae'r CLIC yn dirprwyo unrhyw un neu ragor o'i bwerau iddynt ddilyn gweithdrefnau sydd wedi'u seilio ar y darpariaethau hynny yn yr erthyglau hyn sy'n llywodraethu sut mae'r CLIC yn gwneud penderfyniadau.

9.4 Caiff yr CLIC wneud rheolau ynglŷn â gweithdrefn neu gylch gorchwyl i bob Pwyllgor neu i unrhyw Bwyllgor, ar yr amod nad yw'r rheolau neu'r telerau hynny'n anghyson â'r erthyglau hyn.

9.5 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthyglau hyn, rhaid i Bwyllgorau gynnwys o leiaf un Aelod Etholedig ac unrhyw bersonau neu aelodau eraill a bennir gan yr CLIC. Yn hyn o beth, caiff yr CLIC wahodd aelodau o'r Cwmni i wneud cais am swyddi ar Bwyllgor a/neu wahodd Grwpiau, Cynghorau Rhanbarth a/neu Gyngor y Dirprwyon i enwebu aelodau o'r Pwyllgor i'w hystyried a'u penodi gan yr CLIC.

**GWNEUD PENDERFYNIADAU GAN Y CORFF LLYWODRAETHU CENEDLAETHOL**

**10. Yr CLIC i wneud penderfyniadau ar y cyd**

10.1 Y rheol gyffredinol ynghylch gwneud penderfyniadau gan yr CLIC yw bod rhaid i unrhyw benderfyniad gan yr CLIC fod yn benderfyniad mwyafrifol a wneir yn un o'r ffyrdd a ganlyn:

(a) mewn cyfarfod o'r CLIC; neu

(b) drwy benderfyniad ysgrifenedig, y mae copïau ohono wedi'u llofnodi gan fwyafrif o'r Aelodau Etholedig cymwys neu y mae mwyafrif o'r Aelodau Etholedig cymwys wedi nodi cytundeb ysgrifenedig iddo fel arall.

10.2 Mae cyfeiriadau yn yr erthygl **10** hon at Aelodau Etholedig cymwys yn gyfeiriadau at Aelodau Etholedig a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio ar y mater pe bai wedi'i gynnig fel penderfyniad mewn cyfarfod o'r CLIC.

10.3 Ni chaniateir i benderfyniad gael ei wneud yn unol ag erthygl **10.1(a)** na **(b)** pe na bai'r Aelodau Etholedig cymwys sy'n honni eu bod yn gwneud y penderfyniad wedi ffurfio cworwm mewn cyfarfod o'r fath.

**11. Galw cyfarfod o'r CLIC**

11.1 Rhaid i'r CLIC gyfarfod o leiaf bedair (4) gwaith ym mhob blwyddyn.

11.2 Caiff unrhyw Aelod Etholedig alw cyfarfod o'r CLIC drwy roi hysbysiad o'r cyfarfod i'r Aelodau Etholedig neu drwy awdurdodi ysgrifennydd y cwmni (os oes un) i roi hysbysiad o'r fath.

11.3 Rhaid i hysbysiad o unrhyw gyfarfod o'r CLIC nodi:

(a) ei ddyddiad a'i amser arfaethedig;

(b) ble/sut y mae i gael ei gynnal; ac

(c) os rhagwelir (ar yr adeg y rhoddir yr hysbysiad) na fydd Aelodau Etholedig sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn yr un lle, sut y cynigir y dylent gyfathrebu â'i gilydd yn ystod y cyfarfod.

11.4 Rhaid rhoi hysbysiad o gyfarfod o'r CLIC i bob Aelod Etholedig, ond nid oes angen iddo fod mewn ysgrifen.

**12. Cymryd rhan yng nghyfarfodydd yr CLIC**

12.1 Mae Aelodau Etholedig yn cymryd rhan mewn cyfarfod o'r CLIC, neu ran o gyfarfod:

(a) pan fo'r cyfarfod wedi'i alw a phan fo'n cael ei gynnal yn unol â'r erthyglau hyn; a

(b) pan allant i gyd fynegi i'r lleill unrhyw wybodaeth neu farn sydd ganddynt ar unrhyw eitem benodol o fusnes y cyfarfod.

12.2 Wrth benderfynu a yw Aelodau Etholedig yn cymryd rhan mewn cyfarfod o'r CLIC, nid yw'n berthnasol ble mae unrhyw Aelod Etholedig neu sut y maent yn cyfathrebu â'i gilydd.

12.3 Os nad yw'r holl Aelodau Etholedig sy'n cymryd rhan mewn cyfarfod yn yr un lle, gallant benderfynu bod y cyfarfod i'w drin fel pe bai'n digwydd lle bynnag y mae un ohonynt.

**13. Cworwm cyfarfodydd yr CLIC**

13.1 Mewn cyfarfod o'r CLIC, oni bai bod cworwm yn cymryd rhan, ni chaniateir pleidleisio ar unrhyw gynnig, ac eithrio cynnig i alw cyfarfod arall.

13.2 Gall y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yr CLIC gael ei bennu o dro i dro gan yr Aelodau Etholedig ac oni bai ei fod wedi'i bennu fel arall mae'n bump.

13.3 Os yw cyfanswm nifer yr Aelodau Etholedig am y tro yn llai na'r cworwm angenrheidiol, rhaid i'r Aelodau Etholedig beidio â gwneud unrhyw benderfyniad mewn cyfarfod o'r CLIC ac eithrio penderfyniad:

(a) i alw etholiad Cwmni a/neu gyfarfod cyffredinol er mwyn galluogi'r aelodau i ethol rhagor o Aelodau Etholedig;

(b) i alw cyfarfod o'r CLIC i gyfethol cyfarwyddwyr ychwanegol yn unol ag erthygl **13.4**; a/neu

(c) i ddiogelu a gwarchod asedau'r Cwmni.

13.4 Caiff yr CLIC ar unrhyw adeg gyfethol unrhyw unigolyn sy'n gymwys i gael ei benodi'n gyfarwyddwr i lenwi swydd wag yn eu plith, ond dim ond tan yr etholiad nesaf i Aelodau Etholedig y bydd cyfarwyddwr cyfetholedig o'r fath yn dal ei swydd neu hyd nes y caiff ei ddiswyddo gan yr CLIC (p'un bynnag fydd gyntaf). Gellir cyfethol fel hyn ar ôl i'r CLIC wahodd y Cyngor Rhanbarth perthnasol (o fewn y Rhanbarth Senedd lle mae'r swydd wag wedi codi) i enwebu person i'w benodi'n gyfarwyddwr cyfetholedig.

## 14. Cadeirio cyfarfodydd yr CLIC

14.1 Rhaid i'r Aelodau Etholedig enwebu un o'u plith i gadeirio'u cyfarfodydd. Gelwir y person a enwebwyd felly am y tro yn **Gadeirydd**.

14.2 Caiff yr Aelodau Etholedig hefyd enwebu un o'u plith i weithredu fel Is-gadeirydd a chânt derfynu penodiad y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd unrhyw bryd.

14.3 Os nad yw'r Cadeirydd yn cymryd rhan mewn cyfarfod o'r CLIC o fewn deng munud ar ôl yr amser yr oedd i fod i ddechrau, rhaid i'r Is-gadeirydd gadeirio'r cyfarfod. Er hynny, os nad yw'r Is-gadeirydd ychwaith yn cymryd rhan o fewn deng munud ar ôl yr amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau, rhaid i'r Aelodau Etholedig sy'n cymryd rhan benodi un ohonyn nhw eu hunain i'w gadeirio.

## 15. Pleidlais fwrw

15.1 Os yw nifer y pleidleisiau o blaid ac yn erbyn cynnig yn gyfartal, mae gan y Cadeirydd neu'r Aelod Etholedig arall sy'n cadeirio'r cyfarfod bleidlais fwrw (mewn perthynas â chyfarfodydd yr CLIC yn unig).

15.2 Ond nid yw hyn yn gymwys os nad yw'r Cadeirydd neu'r Aelod Etholedig arall sy'n cadeirio'r cyfarfod i'w gyfrif, yn unol â'r erthyglau hyn, fel pe bai'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

## 16. Gwrthdrawiad buddiannau

16.1 Os yw penderfyniad arfaethedig gan yr CLIC yn ymwneud â thrafodiad neu drefniant gwirioneddol neu arfaethedig gyda'r Cwmni y mae gan Aelod Etholedig fuddiant ynddo, ni chaniateir cyfrif bod yr Aelod Etholedig hwnnw'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer y penderfyniad arfaethedig hwnnw at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

16.2 Yn ddarostyngedig i'r Deddfau Cwmnïau ac erthygl **4**, ac ar yr amod eu bod wedi cydymffurfio â'u dyletswydd (os oes un) i ddatgan eu buddiant yn unol ag adran 177 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ni fydd Aelod Etholedig yn atebol i'r Cwmni am unrhyw fudd y mae'n ei gael o unrhyw drafodiad neu drefniant gyda'r Cwmni neu y mae gan y Cwmni fuddiant fel arall ynddo ac ni fydd unrhyw drafodiad neu drefniant o'r fath yn agored i gael ei osgoi ar sail unrhyw fuddiant neu fudd o'r fath.

DRAFT

16.3 Yn ddarostyngedig i erthygl **16.4**, os bydd cwestiwn yn codi mewn cyfarfod o’r CLIC neu o bwyllgor o’r CLIC ynghylch hawl Aelod Etholedig i gymryd rhan yn y cyfarfod (neu ran o’r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio neu gworwm, caniateir i’r cwestiwn gael ei gyfeirio, cyn i’r cyfarfod ddod i ben, at y Cadeirydd neu’r Aelod Etholedig arall sy’n cadeirio’r cyfarfod ac mae eu dyfarniad hwythau mewn perthynas ag unrhyw Aelod Etholedig heblaw amdanynt hwy eu hunain i fod yn derfynol.

16.4 Os bydd unrhyw gwestiwn ynghylch yr hawl i gymryd rhan yn y cyfarfod (neu ran o’r cyfarfod) yn codi mewn perthynas â’r Cadeirydd neu’r Aelod Etholedig arall sy’n cadeirio’r cyfarfod yn unol ag erthygl **14.5**, mae’r cwestiwn i’w benderfynu drwy benderfyniad gan yr CLIC yn y cyfarfod hwnnw, ac at y diben hwnnw, nid yw’r Cadeirydd neu’r Aelod Etholedig arall hwnnw i’w gyfrif fel pe bai’n cymryd rhan yn y cyfarfod (neu’r rhan honno o’r cyfarfod) at ddibenion pleidleisio.

16.5 Os yw’r CLIC yn bwriadu awdurdodi gwrthdrawiad buddiannau Aelod Etholedig yn unol ag adran 175 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ni chaniateir cyfrif yr Aelod Etholedig dan sylw nac unrhyw Aelod Etholedig arall sydd â buddiant fel pe bai’n cymryd rhan yn y broses benderfynu at ddibenion cworwm neu bleidleisio.

16.6 Wrth awdurdodi gwrthdrawiad buddiannau, caiff yr CLIC atodi amodau a chyfyngiadau i’r awdurdodiad, pennu unrhyw reolau ymddygiad penodol sydd i’w dilyn mewn perthynas â’r gwrthdrawiad a chaiff ryddhau’r Aelod Etholedig dan sylw o unrhyw rwymedigaeth i gyfleu unrhyw wybodaeth gyfrinachol sy’n ymwneud â’r gwrthdrawiad i’r Cwmni neu i’w defnyddio er budd y Cwmni mewn amgylchiadau lle mae wedi cael yr wybodaeth gyfrinachol honno mewn swyddogaeth heblaw swyddogaeth Aelod Etholedig o’r Cwmni.

## 17. Cofnod o benderfyniadau i gael ei gadw

17.1 Rhaid i’r CLIC sicrhau bod y Cwmni’n cadw cofnod ysgrifenedig am o leiaf 10 mlynedd ar ôl dyddiad y cyfarfod a gofnodwyd, o gofnodion yr holl drafodion ym mhob cyfarfod o’r CLIC.

## 18. Disgresiwn y cyfarwyddwyr i wneud rhagor o reolau

18.1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau’r erthyglau hyn, caiff yr CLIC wneud unrhyw reol a wêl yn dda ynghylch sut y mae’n gwneud penderfyniadau, ac am sut y caiff rheolau o’r fath eu cofnodi neu eu cyfleu i’r Aelodau Etholedig.

**ETHOL AELODAU ETHOLEDIG**

## 19. Dulliau ethol Aelodau Etholedig

19.1 Caniateir i unrhyw aelod o’r Cwmni sy’n fodlon gweithredu fel cyfarwyddwr, ac y caniateir yn ôl y gyfraith iddo wneud hynny, gael ei ethol i’r CLIC gan aelodau’r Cwmni, ar yr amod bod yr aelodau hynny mewn Cyflawn Aelodaeth.

DRAFT

19.2 Bydd uchafswm o ddau ar bymtheg (17) o Aelodau Etholedig, a fydd yn cynnwys y canlynol:

(a) hyd at dri aelod a etholir o bob un o bum Rhanbarth y Senedd (gyda'i gilydd hyd at 15 aelod); a

(b) hyd at ddau (2) o aelodau a etholir o'r tu allan i Gymru.

19.3 Cynhelir etholiadau yn unol ag unrhyw weithdrefn neu bolisi a roddir ar waith gan y Cwmni o dro i dro, ar yr amod bod y weithdrefn honno neu'r polisi hwnnw yn gyson â'r erthyglau hyn.

19.4 Caiff y Cwmni benodi person annibynnol i weithredu fel archwilydd mewn perthynas ag unrhyw etholiad a chaiff benderfynu ar gyfrifoldebau'r archwilydd hwnnw fel y gwêl yn dda.

19.5 Rhaid i unrhyw aelod sy'n dymuno cymryd rhan yn un o etholiadau'r Cwmni (naill ai fel ymgeisydd, enwebwr a/neu bleidleisiwr) gydymffurfio ag unrhyw feini prawf neu broses enwebu a roddir ar waith gan y Cwmni o dro i dro.

19.6 Rhaid cyhoeddi canlyniadau etholiadau yn y CCB ar ôl i'r etholiad ddod i ben.

19.7 Dim ond cyn CCB neu gyfarfod cyffredinol y caiff yr aelodau bleidleisio ar etholiadau Aelodau Etholedig i'r CLIC. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel y'u pennir gan yr CLIC, nid yw pleidleisio mewn etholiad yn cael ei gynnal mewn cyfarfod cyffredinol ac ni chaniateir penodi dirprwyon.

19.8 Rhaid i'r etholiad cyntaf i Aelodau Etholedig (yr "Etholiad Cyntaf") gael ei gynnal cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl i'r erthyglau hyn gael eu mabwysiadu. Ar ôl hynny, cynhelir yr etholiad nesaf yn ystod y drydedd flwyddyn yn dilyn yr Etholiad Cyntaf neu yn gynt os ceir 5 neu fwy o swyddi gwag ar yr CLIC.

## 20. Cyfarwyddwyr yn ymddeol ar gylchdro

20.1 Rhaid i bob Aelod Etholedig ymddeol yn y trydydd CCB ar ôl cael ei ethol a bydd ei ymddeoliad (oni chaiff ei ailethol) yn dod i rym ar ddiwedd y CCB hwnnw.

20.2 Caiff pob Aelod Etholedig sydd i fod i ymddeol (yn ddarostyngedig i erthygl **20.4**) ei gynnig ei hun i'w ailethol gan yr aelodau.

20.3 Os nad yw'r Cwmni, yn y CCB lle mae Aelod Etholedig yn ymddeol yn unol ag erthygl **20.1**, yn llenwi'r swydd wag, bernir bod yr Aelod Etholedig sy'n ymddeol, os yw'n fodlon gweithredu ac yn ddarostyngedig bob amser i erthygl **20.4**, wedi'i ailbenodi oni phenderfynir peidio â llenwi'r swydd wag neu oni bai bod penderfyniad ar gyfer ailbenodi'r Aelod Etholedig yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod a'i golli.

20.4 Caniateir i Aelod Etholedig sy'n ymddeol gael ei ailethol am dymor arall ar yr amod na chaiff unrhyw Aelod Etholedig wasanaethu am fwy na thri thymor yn olynol yn ei swydd.

## 21. Terfynu penodiad Aelod Etholedig

21.1 Mae person yn peidio â bod yn Aelod Etholedig o'r CLIC a/neu'n gyfarwyddwr cyn gynted:

(a) ag y bydd y person hwnnw'n peidio â bod yn gyfarwyddwr yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn Neddf Cwmnïau 2006 neu'n cael ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr yn ôl y gyfraith;

(b) ag y gwneir gorchymyn methdaliad yn erbyn y person hwnnw;

(c) ag y gwneir cyfansoddiad gyda chredydwyr y person hwnnw yn gyffredinol i fodloni dyledion y person hwnnw;

(d) ag y bydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cwmni am ba reswm bynnag;

(e) ag y bydd yn absennol o dri (3) chyfarfod yn olynol o'r CLIC ac y bydd mwyafrif o'r cyfarwyddwyr eraill yn gofyn iddo ymddiswyddo;

(f) ag y bydd ymarferydd meddygol cofrestredig sy'n trin y person hwnnw, neu sydd wedi'i archwilio, yn rhoi barn ysgrifenedig i'r Cwmni yn datgan bod y person hwnnw wedi dod yn analluog yn gorfforol neu'n feddyliol i weithredu fel cyfarwyddwr ac y gall barhau felly am fwy na thri mis; neu

(g) ag y caiff y Cwmni hysbysiad ysgrifenedig gan y cyfarwyddwr hwnnw ei fod yn ymddiswyddo, a bod yr ymddiswyddiad hwnnw wedi dod i rym yn unol â'i delerau.

21.2 Os bydd llys, oherwydd iechyd meddwl cyfarwyddwr, yn gwneud gorchymyn sy'n atal y cyfarwyddwr hwnnw yn gyfan gwbl neu'n rhannol rhag arfer yn bersonol unrhyw bwerau neu hawliau a fyddai gan y cyfarwyddwr hwnnw fel arall, caiff gweddill y cyfarwyddwyr benderfynu y bydd y cyfarwyddwr cyntaf a grybwyllwyd yn peidio â bod yn gyfarwyddwr. Mewn perthynas â phenderfyniad o'r fath, ni chaniateir i'r cyfarwyddwr cyntaf a grybwyllwyd fod yn gyfarwyddwr cymwys at ddibenion erthygl **10**.

## 22. Cydnabyddiaeth a threuliau'r cyfarwyddwyr

22.1 Caiff y cyfarwyddwyr ymgymryd ag unrhyw wasanaethau i'r Cwmni, a hynny am unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ac ar unrhyw ffurf y mae'r CLIC yn penderfynu ei fod er budd gorau'r Cwmni.

22.2 Bydd y Cwmni'n talu unrhyw dreuliau rhesymol y mae'r cyfarwyddwyr yn eu hysgwyddo'n briodol mewn cysylltiad â'u presenoldeb yn y canlynol:

(a) cyfarfodydd pwyllgorau'r CLIC neu'r CLIC; neu

(b) cyfarfodydd cyffredinol

neu fel arall mewn cysylltiad ag arfer eu pwerau a chyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Cwmni.

DRAFT

## 23. Is-ddeddfau

23.1 Rhaid i'r CLIC, ar ôl ymgynghori â Chyngor y Dirprwyon mewn perthynas â'r fersiwn gyntaf, wneud unrhyw Is-ddeddfau y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus neu'n gyfleus ar gyfer cynnal a rheoli'r Cwmni'n briodol, gan gynnwys ymysg eraill y meysydd a ganlyn:

(a) Etholiadau (gan gynnwys pleidleisio, meini prawf ymgeiswyr ac enwebiadau);

(b) Pwyllgorau;

(c) rôl y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd;

(d) Cynghorau Rhanbarth;

(e) Cyngor y Dirprwyon;

(f) Grwpiau a chyflawni statws Grŵp Achrededig;

(g) Cyflawn Aelodaeth yr aelodau;

(h) Ceisiadau am aelodaeth

(i) Rheolaethau ariannol;

(j) ymddygiad yr CLIC, yr Aelodau Etholedig a dyletswyddau'r cyfarwyddwyr yn gyffredinol;

(k) ymddygiad yr aelodau yn gyffredinol ac mewn perthynas â'i gilydd;

(l) Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;

(m) Polisïau a gweithdrefnau cwynion a disgyblu;

(n) Diogelu a chydraddoldeb.

23.2 Caiff yr CLIC, o dro i dro, wneud, amrywio neu ddirymu Is-ddeddfau i lywodraethu unrhyw faterion y mae'r CLIC o'r farn eu bod er budd gorau'r Cwmni ac i hybu'r Amcanion.

23.3 Rhaid i bob Is-ddeddf gael ei chyhoeddi'n electronig i'r aelodau cyn gynted â phosibl ar ôl cael ei gwneud.

23.4 Bydd yr Is-ddeddfau'n rhwymo pob Aelod Etholedig/cyfarwyddwr, cyngor, Pwyllgor, Grŵp ac aelod, ar yr amod na chaniateir i unrhyw Is-ddeddf fod yn anghyson ag unrhyw beth a gynhwysir yn yr erthyglau hyn. Os ceir anghysondeb anfwriadol, yr erthyglau hyn fydd yn cael y flaenoriaeth.

DRAFT

RHAN 5

AELODAU

## DOD YN AELOD A PHEIDIO Â BOD YN AELOD

**24. Ceisiadau am aelodaeth**

24.1 Bydd pob aelod presennol o'r gymdeithas anghorfforedig o'r enw YesCymru ar ddyddiad mabwysiadu'r erthyglau hyn, yn awtomatig yn dod yn aelod o'r Cwmni pan fabwysiedir yr erthyglau hyn a bydd yr aelodaeth honno'n dod o dan ddarpariaethau'r erthyglau hyn wedyn.

24.2 Ni chaiff neb arall ddod yn aelod o'r Cwmni oni bai:

(a) bod y person hwnnw wedi llenwi cais am aelodaeth ar ffurf a gymeradwywyd gan y cyfarwyddwyr; a

(b) bod y cyfarwyddwyr wedi cymeradwyo'r cais.

24.3 Ni fydd gan gymdeithas anghorfforedig neu endid arall nad yw'n gorfforaeth hawl i wneud cais am aelodaeth o'r Cwmni, ond fe fydd ganddynt hawl i benodi unigolyn a gaiff wneud cais am aelodaeth o'r Cwmni fel cynrychiolydd i'r endid hwnnw.

**25. Hawliau aelodaeth**

25.1 Bydd gan bob aelod o'r Cwmni hawl i ymuno â'r Grwpiau a ganlyn:

(a) hyd at un Grŵp Daearyddol;

(b) un neu ragor o'r Grwpiau Gwarchodedig;

(c) un neu ragor o'r Grwpiau Thematig;

(d) un neu ragor o'r Grwpiau Cyswllt.

**26. Terfynu aelodaeth**

26.1 Caiff aelod dynnu'n ôl o fod yn aelod o'r Cwmni drwy roi 7 diwrnod o hysbysiad i'r Cwmni mewn ysgrifen.

26.2 Caiff yr CLIC derfynu aelodaeth unrhyw berson o'r Cwmni ar unrhyw un o'r seiliau a ganlyn:

(a) bod aelodaeth barhaus y person hwnnw'n niweidiol i'r Cwmni neu'n debygol o fod yn niweidiol i'r Cwmni;

(b) nad yw aelodaeth y person hwnnw er lles gorau'r Cwmni mwyach am ba reswm bynnag; neu

(c) bod yr aelod dan sylw wedi gweithredu'n groes i unrhyw un neu ragor o Is-ddeddfau, polisïau neu weithdrefnau'r Cwmni.

DRAFT

26.3 Rhaid hysbysu'r aelod dan sylw mewn ysgrifen am unrhyw gynnig i derfynu ei aelodaeth a chaniatáu iddo gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r CLIC cyn y cyfarfod lle bwriedir ystyried tynnu'r aelodaeth.

26.4 Ni chaniateir trosglwyddo aelodaeth.

26.5 Mae aelodaeth person yn dod i ben pan fydd y person hwnnw'n marw neu'n peidio â bod.

**TREFNU CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

**27. Presenoldeb mewn cyfarfodydd cyffredinol a siarad yno**

27.1 Caniateir i gyfarfod cyffredinol gael ei alw gan yr CLIC unrhyw bryd a rhaid i un gael ei alw o fewn 21 diwrnod os bydd aelodau sy'n cynrychioli o leiaf 5% o'r hawliau pleidleisio yng nghyfarfodydd cyffredinol y Cwmni yn ei gwneud yn ofynnol i'r CLIC ei alw, yn unol ag adran 303 o Ddeddf Cwmnïau 2006. I osgoi amheuaeth, rhaid i unrhyw gais o'r fath gan yr aelodau gydymffurfio â gofynion adran 303 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

27.2 Gall person arfer yr hawl i siarad mewn cyfarfod cyffredinol pan fydd y person hwnnw mewn sefyllfa i gyfleu i bawb sy'n bresennol yn y cyfarfod, yn ystod y cyfarfod, unrhyw wybodaeth neu farn sydd gan y person hwnnw ar fusnes y cyfarfod.

27.3 Gall person arfer yr hawl i bleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol:

(a) pan fydd y person hwnnw'n gallu pleidleisio, yn ystod y cyfarfod, ar benderfyniadau a roddir i'r bleidlais yn y cyfarfod; a

(b) pan all pleidlais y person hwnnw gael ei chymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a yw penderfyniadau o'r fath yn cael eu pasio yr un pryd â phleidleisiau pawb arall sy'n bresennol yn y cyfarfod.

27.4 Caiff yr CLIC wneud pa drefniadau bynnag y mae o'r farn eu bod yn briodol i alluogi'r rhai sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol i arfer eu hawliau i siarad neu bleidleisio ynddo.

27.5 Wrth benderfynu ar bresenoldeb mewn cyfarfod cyffredinol, nid yw'n berthnasol a oes unrhyw ddau neu ragor o aelodau sy'n bresennol yn yr un lle â'i gilydd ai peidio.

27.6 Mae dau neu ragor o bobl nad ydynt yn yr un lle â'i gilydd yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol os yw eu hamgylchiadau'n golygu eu bod yn gallu arfer eu hawliau i siarad a phleidleisio yn y cyfarfod hwnnw, os oes ganddynt hawliau o'r fath, neu y byddent yn gallu eu harfer (pe bai hawliau o'r fath ganddynt).

27.7 I osgoi amheuaeth, mae gan sefydliad aelodaeth hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyffredinol, siarad a phleidleisio yno drwy ei **gynrychiolydd awdurdodedig**.

DRAFT

**28. Cworwm cyfarfodydd cyffredinol**

28.1 Ni chaniateir i unrhyw fusnes gael ei drafod mewn cyfarfod cyffredinol os nad yw'r personau sy'n bresennol yn ffurfio cworwm.

28.2 Mae presenoldeb o leiaf gant (100) neu 2% (p'un bynnag yw'r mwyaf) o'r aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys drwy ddirprwy) mewn cyfarfod cyffredinol yn ffurfio cworwm.

28.3 Mae'r cyfeiriadau yn yr erthygl **28** hon at ddirprwy yn gyfeiriadau at ddirprwy neu gynrychiolydd a benodir mewn perthynas â'r cyfarfod o dan sylw yn unol ag adran 324 neu 323 yn y drefn honno o Ddeddf Cwmnïau 2006.

**29. Cadeirio cyfarfodydd cyffredinol**

29.1 Cadeirydd yr CLIC fydd yn cadeirio cyfarfodydd cyffredinol os yw'n bresennol ac yn fodlon gwneud hynny.

29.2 Os nad yw'r Cadeirydd yn fodlon cadeirio'r cyfarfod neu os nad yw'n bresennol o fewn deng munud ar ôl yr i'r amser yr oedd cyfarfod cyffredinol i fod i ddechrau, rhaid:

(a) i'r Is-gadeirydd; neu

(b) (os nad yw'r Is-gadeirydd yn bresennol), i'r Aelodau Etholedig yn y cyfarfod

benodi Aelod Etholedig i gadeirio'r cyfarfod.

29.3 Cyfeirir at y person sy'n cadeirio cyfarfod yn unol â'r erthygl **29** hon fel "**cadeirydd y cyfarfod cyffredinol**".

**30. Cyfarwyddwyr a rhai nad ydynt yn aelodau yn cael bod yn bresennol a siarad**

30.1 Caiff y cyfarwyddwyr fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyffredinol a siarad yno.

30.2 Caiff cadeirydd y cyfarfod cyffredinol, yn ôl disgresiwn yr CLIC, ganiatáu i bersonau eraill nad ydynt yn aelodau o'r Cwmni fod yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol a siarad yno.

**31. Gohirio**

31.1 Os nad yw'r personau sy'n bresennol mewn cyfarfod cyffredinol o fewn hanner awr ar ôl yr amser yr oedd y cyfarfod i fod i ddechrau yn ffurfio cworwm, neu os bydd cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod cyfarfod, rhaid i gadeirydd y cyfarfod cyffredinol ei ohirio.

31.2 Caiff cadeirydd y cyfarfod cyffredinol ohirio cyfarfod cyffredinol lle mae cworwm yn bresennol:

DRAFT

(c) os bydd y cyfarfod yn cydsynio i ohiriad; neu

(d) os yw'n ymddangos i gadeirydd y cyfarfod cyffredinol bod angen ei ohirio er mwyn gwarchod diogelwch unrhyw berson sy'n bresennol yn y cyfarfod neu sicrhau bod busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal mewn modd trefnus.

31.3 Rhaid i gadeirydd y cyfarfod cyffredinol ohirio cyfarfod cyffredinol os caiff ei gyfarwyddo i wneud hynny gan y cyfarfod.

31.4 Wrth ohirio cyfarfod cyffredinol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod cyffredinol:

(a) naill ai pennu'r amser a'r lle y caiff ei ohirio iddynt neu ddatgan ei fod i barhau ar amser ac mewn lle sydd i'w pennu gan yr CLIC; a

(b) rhoi sylw i unrhyw gyfarwyddydau ynghylch amser a lleoliad unrhyw ohiriad a roddwyd gan y cyfarfod.

31.5 Os yw cyfarfod gohiriedig i barhau fwy na 14 diwrnod ar ôl cael ei ohirio, rhaid i'r Cwmni roi o leiaf 7 diwrnod clir o hysbysiad amdano (hynny yw, heb gynnwys diwrnod y cyfarfod a ohiriwyd na'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad):

(a) i'r un personau y mae'n ofynnol rhoi hysbysiad o gyfarfodydd cyffredinol y Cwmni iddynt; a

(b) yn cynnwys yr un wybodaeth y mae'n ofynnol i hysbysiad o'r fath ei chynnwys.

31.6 Ni chaniateir i unrhyw fusnes gael ei drafod mewn cyfarfod cyffredinol gohiriedig na ellid bod wedi'i drafod yn briodol yn y cyfarfod pe na bai'r gohiriad wedi digwydd.

**PLEIDLEISIO MEWN CYFARFODYDD CYFFREDINOL**

**32. Pleidleisio: cyffredinol**

32.1 Rhaid i benderfyniad a roddir i'r bleidlais mewn cyfarfod cyffredinol gael ei benderfynu drwy ddangos dwylo oni cheir galwad am bleidlais yn y modd priodol yn unol â'r erthyglau hyn. Caniateir i'r Cwmni ddefnyddio dyfeisiau pleidleisio electronig hefyd.

32.2 Dim ond cyn CCB neu gyfarfod cyffredinol y caiff yr aelodau bleidleisio ar etholiadau Aelodau Etholedig i'r CLIC. Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol fel y'u pennir gan yr CLIC, nid yw pleidleisio mewn etholiad yn cael ei gynnal mewn cyfarfod cyffredinol ac ni chaniateir penodi dirprwyon.

**33. Gwallau ac anghydfodau**

33.1 Ni chaniateir codi gwrthwynebiad i gymhwyster unrhyw berson sy'n pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol ac eithrio yn y cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig lle caiff y bleidlais a wrthwynebir ei thendro, ac mae pob pleidlais nad yw wedi'i gwrthod yn y cyfarfod yn ddilys.

DRAFT

33.2 Rhaid cyfeirio unrhyw wrthwynebiad o'r fath at gadeirydd y cyfarfod cyffredinol, ac mae penderfyniad cadeirydd y cyfarfod cyffredinol yn derfynol.

**34. Pleidleisio drwy bôl**

34.1 Caniateir i bôl ar benderfyniad gael ei fynnu:

(a) cyn y cyfarfod cyffredinol lle mae i'w roi i'r bleidlais; neu

(b) mewn cyfarfod cyffredinol, naill ai cyn dangos dwylo ar y penderfyniad hwnnw neu yn union ar ôl i ganlyniad dangos dwylo ar y penderfyniad hwnnw gael ei ddatgan.

34.2 Gall pôl gael ei fynnu gan y canlynol:

(a) cadeirydd y cyfarfod cyffredinol;

(b) unrhyw Aelod Etholedig;

(c) pump neu ragor o bersonau sydd â'r hawl i bleidleisio ar y penderfyniad; neu

(d) person neu bersonau sy'n cynrychioli nid llai nag un rhan o ddeg o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio ar y penderfyniad.

34.3 Caniateir i alwad am bôl gael ei thynnu'n ôl:

(a) os nad yw'r pôl wedi'i gymryd eto; a

(b) os yw cadeirydd y cyfarfod cyffredinol yn cydsynio iddi gael ei thynnu'n ôl.

34.4 Rhaid i bolau gael eu cymryd ar unwaith ac yn y modd a gyfarwyddir gan gadeirydd y cyfarfod cyffredinol.

**35. Cynnwys hysbysiadau dirprwy**

35.1 Dim ond drwy hysbysiad mewn ysgrifen ("**hysbysiad dirprwy**") y caniateir i ddirprwyon gael eu penodi'n ddilys, sef hysbysiad sydd:

(a) yn datgan enw a chyfeiriad yr aelod sy'n penodi'r dirprwy;

(b) yn enwi'r person a benodir i fod yn ddirprwy i'r aelod hwnnw a'r cyfarfod cyffredinol y penodir y person hwnnw mewn perthynas ag ef;

(c) wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi'i ddilysu mewn unrhyw fodd y caiff y cyfarwyddwyr ei bennu; a

(d) yn cael ei ddanfon i'r Cwmni yn unol â'r erthyglau hyn ac unrhyw gyfarwyddiadau a gynhwysir yn hysbysiad y cyfarfod cyffredinol y mae'n ymwneud ag ef.

DRAFT

35.2 Caiff y Cwmni ei gwneud yn ofynnol i hysbysiadau dirprwy gael eu danfon ar ffurf benodol, a chaiff bennu ffurflenni gwahanol at ddibenion gwahanol.

35.3 Caiff hysbysiadau dirprwy bennu sut mae'r dirprwy i bleidleisio (neu bennu bod y dirprwy i ymatal rhag pleidleisio) ar un neu ragor o benderfyniadau.

35.4 Oni bai bod hysbysiad dirprwy yn nodi fel arall, rhaid ei drin fel pe bai:

(a) yn caniatáu disgresiwn i'r person a benodir yn ddirprwy o ran sut i bleidleisio ar unrhyw benderfyniadau ategol neu weithdrefnol a gyflwynir i'r cyfarfod; a

(b) yn penodi'r person hwnnw fel dirprwy mewn perthynas ag unrhyw ohiriad yn y cyfarfod cyffredinol y mae'n ymwneud ag ef yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

**36. Danfon hysbysiadau dirprwy**

36.1 Mae gan berson sydd â hawl i fod yn bresennol mewn cyfarfod cyffredinol, siarad neu bleidleisio yno (naill ai drwy ddangos dwylo neu ar bôl) hawl felly o hyd mewn perthynas â'r cyfarfod hwnnw neu unrhyw ohiriad, er bod hysbysiad dirprwy dilys wedi'i ddanfon i'r Cwmni gan neu ar ran y person hwnnw.

36.2 Caniateir i benodiad o dan hysbysiad dirprwy gael ei ddirymu drwy ddanfon i'r Cwmni hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan neu ar ran y person y rhoddwyd yr hysbysiad dirprwy ganddo neu ar ei ran.

36.3 Dim ond os caiff ei ddanfon cyn i unrhyw bleidlais yn y cyfarfod neu'r cyfarfod gohiriedig y mae'n ymwneud ag ef gael ei chymryd y daw hysbysiad dirprwy neu hysbysiad sy'n dirymu penodiad dirprwy i rym.

36.4 Os na chaiff hysbysiad dirprwy ei weithredu gan y person sy'n penodi'r dirprwy, rhaid iddo gael ei ategu â thystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y person a'i gweithredodd i'w weithredu ar ran y person sy'n penodi'r dirprwy.

36.5 Rhaid i hysbysiad dirprwy ddod i law'r Cwmni heb fod yn hwyrach na 48 awr cyn amser y cyfarfod (neu'r cyfarfod gohiriedig) ac wrth gyfrifo'r amser hwn, rhaid peidio â chyfrif unrhyw ran o ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod gwaith.

**37. Diwygiadau i benderfyniadau**

37.1 Caniateir i benderfyniad cyffredin sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad cyffredin:

(a) os rhoddir hysbysiad o'r diwygiad arfaethedig i'r Cwmni mewn ysgrifen gan berson sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod cyffredinol lle bwriedir ei gynnig heb fod yn llai na 48 awr cyn i'r cyfarfod gael ei gynnal (neu unrhyw amser diweddarach y bydd cadeirydd y cyfarfod cyffredinol yn penderfynu arno); neu

DRAFT

(b) os yw cadeirydd y cyfarfod cyffredinol yn cynnig y diwygiad yn y cyfarfod cyffredinol lle bwriedir cynnig y penderfyniad

ac, yn y naill achos neu'r llall, os nad yw'r diwygiad arfaethedig, ym marn resymol cadeirydd y cyfarfod cyffredinol (sef barn sy'n derfynol), yn newid rhychwant y penderfyniad yn sylweddol.

37.2 Caniateir i benderfyniad arbennig sydd i'w gynnig mewn cyfarfod cyffredinol gael ei ddiwygio drwy benderfyniad cyffredin:

(a) os yw cadeirydd y cyfarfod cyffredinol yn cynnig y diwygiad yn y cyfarfod cyffredinol lle mae'r penderfyniad i'w gynnig; a

(b) os nad yw'r gwelliant yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn cywiro gwall gramadegol neu wall arall nad yw'n sylweddol yn y penderfyniad.

37.3 Os bydd cadeirydd y cyfarfod cyffredinol, gan weithredu'n ddidwyll, yn penderfynu'n anghywir fod diwygiad i benderfyniad allan o drefn, nid yw camgymeriad y cadeirydd yn annilysu'r bleidlais ar y penderfyniad hwnnw.

## RHAN 6

## Y CYNGHORAU RHANBARTH

### 38. Aelodaeth y Cynghorau Rhanbarth

38.1 Bydd pum Cyngor Rhanbarth.

38.2 Bydd aelodaeth pob Cyngor Rhanbarth fel a ganlyn:

(a) cadeirydd o dro i dro pob Grŵp Daearyddol (ar yr amod bod y Grŵp hwnnw'n dod o fewn Rhanbarth Senedd y Cyngor Rhanbarth perthnasol) neu yn absenoldeb y cadeirydd, unrhyw aelod arall a ddewisir gan y Grŵp Daearyddol;

(b) cadeirydd o dro i dro pob Grŵp Achrededig o fewn Rhanbarth Senedd y Cyngor Rhanbarth, neu yn absenoldeb y cadeirydd, unrhyw aelod arall a ddewisir gan Grŵp Achrededig.

### 39. Rôl y Cynghorau Rhanbarth

39.1 Rhaid i'r Cynghorau Rhanbarth drafod a dadlau unrhyw syniadau, polisïau, strategaethau a phrosiectau a gynigir gan eu Grwpiau Daearyddol.

39.2 Caiff y Cynghorau Rhanbarth gyflwyno unrhyw syniadau, polisïau, strategaethau a phrosiectau sydd yn eu barn nhw yn debygol o hybu'r Amcanion i'w hystyried gan Gyngor y Dirprwyon.

DRAFT

RHAN 7

CYNGOR Y DIRPRWYON

## 40. Aelodaeth Cyngor y Dirprwyon

40.1 Bydd aelodaeth Cyngor y Dirprwyon fel a ganlyn:

(a) hyd at un aelod a enwebir gan bob Cyngor Rhanbarth ("Cynrychiolydd Rhanbarth") cyn pob cyfarfod o Gyngor y Dirprwyon; a

(b) cadeirydd o dro i dro pob Grŵp Gwarchodedig (neu yn eu habsenoldeb nhw, unrhyw aelod arall a ddewisir gan Grŵp Gwarchodedig).

40.2 Rhaid i Gyngor y Dirprwyon gynnwys mwyafrif o Gynrychiolwyr Rhanbarth. Gan hynny ac yn ddarostyngedig i erthygl **40.3** isod, gall fod angen cynyddu cyfanswm y Cynrychiolwyr Rhanbarth ac wrth sicrhau mwyafrif o Gynrychiolwyr Rhanbarth, gall Cyngor y Dirprwyon ddyrannu un neu ragor o Gynrychiolwyr Rhanbarth ychwanegol i'r Cynghorau Rhanbarth. Dyrennir y Cynrychiolwyr Rhanbarth ychwanegol hynny i'r Cynghorau Rhanbarth (mewn trefn ddisgynnol) o fewn rhanbarth sydd â'r nifer uchaf o aelodau'r Cwmni.

40.3 Ni fydd gan unrhyw Gyngor Rhanbarth hawl i enwebu mwy na dau (2) o Gynrychiolwyr Rhanbarth i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd Cyngor y Dirprwyon.

40.4 Pan fo gan Gyngor Rhanbarth ddau neu ragor o Gynrychiolwyr Rhanbarth, lle bo modd, rhaid iddynt sicrhau bod y Cynrychiolwyr Rhanbarth etholedig hynny yn gytbwys o ran rhywedd.

## 41. Rôl Cyngor y Dirprwyon

41.1 Rhaid i Gyngor y Dirprwyon drafod a dadlau unrhyw syniadau, polisïau, strategaethau a phrosiectau a allai hybu'r Amcanion a rhaid iddo gyflwyno cynigion ffurfiol i'w hystyried gan yr CLIC neu'r Pwyllgor perthnasol.

41.2 Caiff Cyngor y Dirprwyon hefyd ystyried cynigion y gall unrhyw Grŵp eu cyflwyno.

## 42. Cyfarfodydd Cyngor y Dirprwyon

42.1 Rhaid i Gyngor y Dirprwyon gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

42.2 Rhaid i benderfyniadau gael eu gwneud drwy bleidlais fwyafrif syml ac yn unol ag unrhyw bolisi perthnasol a weithredir gan y Cwmni o dro i dro.

42.3 Caiff Cyngor y Dirprwyon wahodd unrhyw aelodau o'r CLIC i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, ond ni fydd gan yr aelodau hynny bleidlais yng nghyfarfodydd Cyngor y Dirprwyon.

DRAFT

RHAN 8

## TREFNIADAU GWEINYDDOL

### 43. Y dulliau cyfathrebu sydd i'w defnyddio

43.1 Yn ddarostyngedig i'r erthyglau hyn, caniateir i unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan y Cwmni neu i'r Cwmni o dan yr erthyglau hyn gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn unrhyw ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn darparu i ddogfennau neu wybodaeth sydd wedi'u hawdurdodi neu sy'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf honno gael eu hanfon neu eu cyflenwi drwyddi gan y Cwmni neu i'r Cwmni a bydd y darpariaethau ynglŷn â chyfathrebiadau cwmni yn Neddf Cwmnïau 2006 yn gymwys i unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir o dan yr erthyglau hyn.

43.2 Bernir bod gohebiaeth a anfonir neu a gyflenwir gan y Cwmni wedi dod i law'r derbynnydd arfaethedig:

(a) os caiff ei anfon drwy'r post, 24 awr ar ôl iddo gael ei bostio;

(b) os caiff ei ddanfon â llaw, adeg ei ddanfon felly;

(c) os caiff ei anfon drwy ddull electronig, yn union ar ôl ei anfon; a

(d) os trefnir ei fod ar gael ar wefan, pan ddaeth yr hysbysiad bod y cyfathrebiad yn bresennol ar y wefan i law'r derbynnydd arfaethedig neu, os yw'n ddiweddarach, ar y dyddiad yr ymddangosodd y cyfathrebiad ar y wefan.

43.3 Yn achos cyfathrebiad a anfonir neu a gyflenwir gan y Cwmni, caiff y Cwmni drefnu bod y dogfennau neu'r wybodaeth ar gael ar wefan yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

43.4 Yn ddarostyngedig i'r erthyglau hyn, caniateir i unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w hanfon neu i'w cyflenwi i gyfarwyddwr mewn cysylltiad â gwneud penderfyniadau gan y cyfarwyddwyr gael eu hanfon neu eu cyflenwi hefyd drwy'r dull y mae'r cyfarwyddwr hwnnw wedi gofyn am i hysbysiadau neu ddogfennau o'r fath gael eu hanfon neu eu cyflenwi am y tro.

43.5 Caiff cyfarwyddwr gytuno â'r Cwmni y dylid barnu bod hysbysiadau neu ddogfennau a anfonir at y cyfarwyddwr hwnnw mewn ffordd benodol wedi dod i law o fewn amser penodedig ar ôl cael eu hanfon, ac i'r amser penodedig fod yn llai na'r hyn a bennir yn erthygl **43.2**.

### 44. Dim hawl i archwilio cyfrifon a chofnodion eraill

44.1 Ac eithrio fel y darperir gan y gyfraith neu a awdurdodir gan yr CLIC neu benderfyniad cyffredin gan y Cwmni, nid oes gan neb hawl i archwilio unrhyw un neu ragor o gofnodion neu ddogfennau cyfrifyddu neu gofnodion neu ddogfennau eraill y Cwmni yn rhinwedd bod yn aelod yn unig.

## INDEMNIAD AC YSWIRIANT Y CYFARWYDDWYR

### 45. Indemniad

45.1 Yn ddarostyngedig i erthygl **45.2** rhaid i gyfarwyddwr perthnasol i'r Cwmni neu i gwmni cysylltiedig gael ei indemnio o asedau'r Cwmni yn erbyn:

(a) unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gan y cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad ag unrhyw esgeulustod, diffyg, tor dyletswydd neu dor ymddiriedaeth mewn perthynas â'r Cwmni neu gwmni cysylltiedig;

(b) unrhyw atebolrwydd a ysgwyddir gan y cyfarwyddwr hwnnw mewn cysylltiad â gweithgareddau'r Cwmni neu gwmni cysylltiedig yn rhinwedd ei swydd fel ymddiriedolwr cynllun pensiwn galwedigaethol (fel y'i diffinnir yn adran 235(6) o Ddeddf Cwmnïau 2006); ca

(c) unrhyw atebolrwydd arall a ysgwyddir gan y cyfarwyddwr hwnnw fel swyddog i'r Cwmni neu gwmni cysylltiedig.

45.2 Nid yw'r erthygl **45** hon yn awdurdodi unrhyw indemniad a gâi ei wahardd neu ei ddirymu gan unrhyw ddarpariaeth yn y Deddfau Cwmnïau neu gan unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol arall.

45.3 Yn yr erthygl **45** hon:

(a) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu os yw'r ddau yn is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol; a

(b) ystyr "**cyfarwyddwr perthnasol**" yw unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr i'r Cwmni neu i gwmni cysylltiedig.

### 46. Yswiriant

46.1 Caiff yr CLIC benderfynu prynu a chadw yswiriant, ar draul y Cwmni, er budd unrhyw swyddog perthnasol mewn perthynas ag unrhyw golled berthnasol.

46.2 Yn yr erthygl **46** hon:

(a) ystyr "**swyddog perthnasol**" yw unrhyw gyfarwyddwr neu gyn-gyfarwyddwr, ysgrifennydd neu gyn-ysgrifennydd, rheolwr neu gyn-reolwr i'r Cwmni neu i gwmni cysylltiedig;

(b) ystyr "**colled berthnasol**" yw unrhyw golled neu atebolrwydd a ysgwyddwyd neu a allai gael eu hysgwyddo gan swyddog perthnasol mewn cysylltiad â dyletswyddau neu bwerau'r swyddog hwnnw mewn perthynas â'r Cwmni, unrhyw gwmni cysylltiedig neu unrhyw gronfa bensiwn neu gynllun cyfrannau cyflogeion i'r Cwmni neu i gwmni cysylltiedig; ac

(c) mae cwmnïau'n gysylltiedig os yw un yn is-gwmni i'r llall neu os yw'r ddau yn is-gwmnïau i'r un corff corfforaethol.

DRAFT